



Gwers 43



Cyfes Stori Duw

Iesu'n mynd nôl i'r nefoedd

Actau 1:1–14

Nod:

Daeth Iesu o'r nefoedd ac mae'n mynd yn ôl yno... mae ef dal yn fyw heddiw!

Adnodau:

Actau 1:1–14

Gweithgaredd:

Esgyniad y balwn

Rhowch falwn i bob aelod o'r dosbarth. Gofynnwch iddynt i'w chwythu i fyny ac yna gwneud cwlwm ar y pen. Wedi i bawb wneud hyn, esboniwch mai bwriad y gweithgaredd yw ceisio cadw'r balwn yn yr awyr am yr amser hiraf posibl, heb afael ynddo, na'i osod ar rywbeth, na'i falansio ar y llaw ayb. Mae'n rhaid iddynt ei gadw oddi ar y ddaear drwy ei daro gyda'u llaw/troed ayb.

Wedi i chwi ddweud ewch, mae'r bobl ifanc i daro'u balwn i'r awyr a ceisio ei gadw yno. Pan fydd balwn rhywun yn taro'r llawr fe fydd ef/hi allan o'r gêm.

Os oes rhai munudau wedi mynd heibio, a mwyafrif y dosbarth yn llwyddo i gadw eu balwn yn yr awyr yn reit rhwydd, rhowch ganiatâd iddynt daro balwn aelodau eraill y dosbarth i geisio eu cael hwy allan o'r gêm.

Cefndir:

Gofynnwch i'r bobl ifanc sawl gŵyl Gristnogol y gallan nhw eu henwi? (Nadolig, Pasg, diolchgarwch ayb)

Gofynnwch a ydyn nhw wedi clywed am ŵyl y dyrchafael. Yr hanes y tu ôl i'r ŵyl hon fyddwn ni'n ei ddarllen heddiw.

Gosodwch gefndir yr hanes drwy ddweud, mae 40 diwrnod wedi mynd heibio ers digwyddiadau'r Pasg, sef marwolaeth ac atgyfodiad Iesu. Mae cannoedd o bobl wedi gweld a siarad â Iesu, ond heddiw fe fydd popeth yn newid. Fe fydd byd y disgyblion a holl ddilynwyr Iesu'n cael ei ysgwyd, gan fod eu hathro, eu cyfaill, eu Harglwydd, eu Duw yn eu gadael.

Darllen yr adnodau : dewiswch dri aelod o'r dosbarth i ddarllen yr hanes. Un i ddarllen y rhan am addo'r Ysbryd Glân sef adnodau 1 – 5, un i ddarllen y rhan am esgyniad Iesu, adnodau 6 – 11, ac un i ddarllen adnodau 12 – 14.

Trafodaeth:

Gofynnwch a oes unrhyw un yn y dosbarth erioed wedi gorfod symud tŷ, i fyw mewn ardal newydd neu ran arall o'r wlad?

Os oes yna, holwch hwy am sut oedd hyn yn teimlo. Os nad oes, ac ar gyfer gweddill y dosbarth gofynnwch iddynt i ddychmygu fod yn rhaid iddynt symud. Pa bethau fyddai'n anodd am adael popeth a mynd i rywle newydd?

Os nad ydynt wedi codi hyn yn barod gofynnwch iddynt sut y bydden nhw'n teimlo o orfod gadael eu ffrindiau?

Yn ein hanes heddiw fe welsom ni Iesu yn gadael y disgyblion ac yn esgyn (cael ei

ddyrchafu i'r nefoedd). Sut mae'r dosbarth yn meddwl oedd y disgyblion yn teimlo?

Ble mae Iesu nawr felly? Yn y nefoedd

Pwy wnaeth Iesu ei addo i'r disgyblion i'w nerthu yn ei absenoldeb? (Ysbryd Glân adnodau 5 a 8)

Beth wnaeth y disgyblion ar ôl esgyniad Iesu? (ad 12 a 14)

Er bod Iesu wedi mynd, roedd y disgyblion, a gweddill dilynwyr Iesu yn parhau gyda'i Cristnogaeth. Wnaethon nhw ddim rhoi'r gorau iddi na digalonni.

Gweithgaredd:

Gêm Tŵr Esgyniad

Er mwyn atgyfnerthu ystyr y gair 'esgyniad' (dyrchafu), a'r amser a fu ers y Pasg – 40 diwrnod, rhowch sialens i'r dosbarth i adeiladu Tŵr Esgyniad.

Rhannwch hwy yn grwpiau o 3 ar gyfer y gweithgaredd hwn, gan roi 40 siwgwr lwmp i bob grŵp. Maent i ddefnyddio pob un o'r lymphiau i adeiladu tŵr mor uchel ag y gallant. Y grŵp sy'n adeiladu'r tŵr uchaf (a hwnnw'n aros ar ei draed heb gymorth a heb gwmpo am yn hwy na 40 eiliad) yw'r rhai buddugol.

Sgwrs:

Ni wnaeth Iesu adael y disgyblion ar eu pennau eu hunain, fe addawodd anfon yr Ysbryd Glân i'w harwain a'u nerthu. Roedd wedi rhaghybysu'r disgyblion y byddai hyn

yn digwydd droeon cyn y Pasg (ee, Ioan 14:15–i ddiwedd y bennod). Cawn wybod mwy am hyn yn y wers yr wythnos nesaf.

Mae gwaith Iesu ar y ddaear wedi gorffen, fe ddaeth i'r byd i farw er mwyn i bawb sy'n credu ynddo gael maddeuant pechodau, perthynas â Duw, a bywyd tragwyddol. Ond nid dyma'r tro olaf y bydd Iesu ar y ddaear. A yw'r bobl ifanc yn cofio beth ddywedodd y ddau ŵr mewn dillad gwyn? (fod Iesu am ddod yn ôl yn yr un modd ag y gwelsant hwy ef yn esgyn). Rhyw ddydd fe fydd Iesu yn dod yn ôl i ddileu pechod, poen, marwolaeth, newyn, tristwch am byth. Bydd y greadigaeth berffaith, a'r berthynas berffaith â Duw y gwelsom yng ngardd Eden yn dod yn realiti i bob Cristion.

Amser Addoli:

Weithiau mae hi'n hawdd anghofio am Iesu, a byw heb feddwl llawer amdano. Gofynnwch i'r dosbarth ysgrifennu gweddi fel pe baent yn un o ddilynwyr Iesu yn yr oruwch ystafell (ad 14). Yn dyheu am gael ei weld ef eto, ac yn gofyn am yr Ysbryd Glân fel y bônt yn cael nerth ac arweiniad gan Iesu Grist bob eiliad o bob dydd. Amen

Gorffennwch y wers heddiw drwy ofyn y cwestiwn – a ydych chi'n sylweddoli y gall Iesu ddod i fyw yn eich calon, yn bresenoldeb real yn eich bywyd bob eiliad o bob dydd? Fe soniwn fwy am hyn wythnos nesaf.